Eisteddfod Uwchmynydd Llun Y Pasg

Cynulleidfa a chystadleuwyr niferus

Cafwyd cystadlu brwd am yn agos i ddeg awr yn neuadd Crud Y Werin, Aberdaron, ac roedd rhwng 6 i 10 mewn nifer o'r cystadlaethau. Arweinwyd y gweithgareddau llwyfan yn hwylus gan Awen Griffith, Medwen Pari ac Alaw Tecwyn. Y beirniad Cerdd oedd Huw Foulkes, Caerdydd a'r beirniad Llefaru oedd Andrea Parry, Y Bala, y beirniad Llenyddiaeth oedd Llŷr Titus, Brynmawr, a'r beirniad Arlunio oedd Hafwen Dorkins, Aberdaron, pob un yn hynod o ddifyr efo'r sylwadau. Y Cyfeilydd medrus a fu'n gweithio'n galed iawn oedd Olwen Jones, Bangor. Talwyd y diolchiadau gan Elizabeth Owen, Gwyddel gan fynegi gwerthfawrogiad o gyfraniad pawb i lwyddiant yr Eisteddfod a chyfeiriwyd at haelioni y Llywydd Gwyn Jones, Plas ym Mhenllech, ac am bob rhodd a gafwyd. Diolchwyd am waith paratoi y pwyllgor, a braf oedd gweld rhai ifanc wedi dod i gynorthwyo gyda'r trefniadau. Cyflwynwyd Tlws Geriach Glesni am y perfformiad mwyaf arbennig i Alwena Mair Owen, Llanllwni. Cyflwynwyd Medal y Plant dan 9 oed i Lois Alaw Williams, Manod, Blaenau Ffestiniog, medal am y Gerdd orau dan 12 oed i Nansi Grisial Jones, Llansannan a Medal y Stori orau i Nel Grisial Jones, Llansannan, y ddwy yn efeilliad,- tipyn o gamp oedd hyn i'r ddwy gan ystyried bod 78 wedi ymgeisio am y medalau. Roedd Tlws yr Ifanc yn rhoddedig ac aeth i enillydd teilwng yn Sioned Bowen, Llanfihangel-ar-arth. Enillydd Cwpan Goffa Kitty Pritchard Gwyddel oedd Catherine Williams, Botwnnog ac aeth Cwpan Goffa Evan Roberts i Catrin Parry, Pwllheli.

Dyma'r buddugwyr:

Cerdd

Dan 6 oed - Celt Aron Jones, Llanaelhaearn; Dan 8 oed - Nanw Dafydd, Llansannan; Dan 10 oed - Gwennan Owen, Llanllwni; Dan 12 oed - Alwena Mair Owen, Llanllwni; Dan 18 oed - Llŷr Eirug, Aberystwyth; Dan 25 oed - Catrin Parry, Pwllheli; Cerdd Dant dan 12 oed - Gwennan Owen, Llanllwni; Cân Werin - Alwena Mair Owen, Llanllwni; Deuawd Cerdd Dant- Llŷr ac Anest Eirug, Aberystwyth; Cerdd Dant dan 21 oed - Llŷr Eirug, Aberystwyth; Unrhyw offeryn dan 12 oed - Lea Mererid, Pwllheli; Emyn dros 50 oed - Catherine Williams, Botwnnog; Deuawd - Ian Goronwy a Siôn Eilir, Llanbedrog a Sarn Bach; Côr - Alawon Llŷn, Arweinydd Alaw Tecwyn, Cyfeilydd Nia Thomas; Tlws Cerdd - Alwena Mair Owen, Llanllwni; Unrhyw offeryn Agored - Alwena Mair Owen, Llanllwni; Sgen Ti Dalent - Elin Dafydd, Deiniolen ac Owain Rhys, Chwilog; Wythawd - Siôn Eilir, Robat John, Gwyn, Ian, Catherine, Gwyneth, Miriam a Mared; Sioe Gerdd - Catrin Parry, Pwllheli; Unawd Gymraeg - Catrin Parry; Parti Merched/Meibion - Parti Alawon Llŷn; Prif Unawd - Catrin Mair Parry; Parti dan 18 oed - Parti Daron, Urdd Aberdaron/Rhiw.

Llefaru

Dan 6 oed - Lois Haf Jones, Sarn; Dan 8 oed - Cati Siôn, Rhiw; Dan 10 oed - Nel Grisial Jones, Llansannan; Dan 12 oed - Alwena Mair Owen, Llanllwni; Dan 18 oed - Fflur Williams, Pwllheli; Dan 25 oed - Owain Rhys, Chwilog; Parti Llefaru dan 18 oed - Parti Daron; Parti Llefaru Agored - Lleisiau Cafflogion; Darllen darn ar y pryd - Gwyndaf Jones, Efail Newydd; Prif Lefaru - Owain Rhys, Chwilog.

Llenyddiaeth

Medalau y Plant:

Dan 9 oed - 1af Lois Alaw Williams, Manod; 2il Llio Medi Jones, Sarn.
Dan 12 oed - Cerdd - 1af Nansi Grisial Jones, Llansannan; 2il Cadi Midwood, Morfa Nefyn.
Dan 12 oed - Stori - 1af Nel Grisial Jones, Llansannan; 2il Ela Fôn, Rhiw.

Tlws yr Ifanc:

Sioned Bowen, Llanfihangel-ar-arth. Safon arbennig o uchel, diolch i'r ysgolion ac i'r colegau am roi anogaeth. **Erthygl** - Manon Elin James, Aberystwyth; **Parodi** - John Owen, Rhuthun; **Cân Ddigri** - Neb yn deilwng; **Telyneg** - Megan Richards, Aberaeron; **Limrig** - Eirlys Buckland-Evers, Glannau Dyfrdwy; **Llinell Goll** - Mary B. Morgan, Llanrhystud; **Englyn** - John Owen, Rhuthun.

Arlunio

Dan 6 oed - Noa Roberts, Ysgol Edern; Dan 9 oed - Mari Thomas, Ysgol Crud y Werin; Dan 12 oed - Non Eleri Evans, Ysgol Crud y Werin. Agored - Elain Owen, Uwchmynydd.

Ffotograffiaeth

Oed Cynradd - Cadi Fflur Midwood, Morfa Nefyn.
Agored - Netta Pritchard, Mynytho.